COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR Y CABINET CYDRADDOLDEB A GYNHALIWYD BELL TRWY TIMAU MICROSOFT DYDD LLUN, 25 GORFFENNAF 2022, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd W R Goode – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| JPD Blundell | HJ David | N Farr | J Gebbie |
| D M Hughes | J Llewellyn-Hopkins | RL Penhale-Thomas | AJ Williams |
| E D Winstanley | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

A R Berrow, JC Spanswick, A Wathan a/ac HM Williams

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Debra Beeke | Rheolwr Grŵp – Adnoddau Dynol a Datblygu Trefniadaethol |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Lucy King | Swyddog Ymgynghori ac Ymgysylltu |
| Philip O'Brien | Rheolwr Trawsnewid Digidol a Gwasanaethau Cwsmer |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Andrew Rees | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Susan Roberts | Rheolwr Grŵp Gwella Ysgolion |

1. DATGANIADAU O FUDDIANT

Mynegodd y Cynghorydd Ross Thomas ddiddordeb personol ym mhob eitem o'r agenda, am iddo weithio i elusen a oedd yn arbenigo mewn cydraddoldeb.

2. DERBYN Y COFNODION

PENDERFYNWYD: y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod fel cofnod cywir.

3. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GYDRADDOLDEB YN Y GWEITHLU (2021/22)

Cyflwynodd Rheolwr y Grŵp, Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol adroddiad i roi crynodeb i Bwyllgor y Cabinet Cydraddoldeb o broffil cydraddoldeb gweithlu'r Cyngor ar 31 Mawrth 2022.

Dywedodd fod Atodiad 1 yn darparu proffil cydraddoldeb o weithlu'r Cyngor ar 31 Mawrth 2022, gyda data cymharol o'r ddwy flynedd flaenorol, lle bo'n bosibl. Roedd y proffil yn cynnwys nodweddion gwarchodedig y gweithlu (rhywedd, anabledd, ethnigrwydd, oed, a chyfeiriadedd rhywiol). Mae set ddata lawn ar gael ar sail rhywedd ac oedran, fodd bynnag, nid yw'n orfodol i weithwyr ddatgelu eu gwybodaeth bersonol sensitif at ddibenion monitro cydraddoldeb.

Tynnodd Reolwr y Grŵp, Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol sylw at y Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a ychwanegwyd yn 2021/22, gyda'r bwriad o gyfoethogi ymrwymiad ac agwedd bresennol y cyngor at gydraddoldeb.

Darparodd Rheolwr y Grŵp, Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol grynodeb o'r ystadegau ar gyfer pob categori yn Atodiad 1. Nodwyd rhai pwyntiau allweddol:

- Roedd gweithu'r cyngor yn cynnwys pobl hŷn, gyda'r cyfartaledd oed yn 47. Roedd hyn yn adlewyrchu ffigyrau cyffelyb mewn awdurdodau lleol eraill.

- Adroddwyd ffigyrau isel yn ymwneud â chyfeiriadedd rhywiol
- Roedd beichiogrwydd a mamolaeth yn eitemau newydd a gafodd eu cynnwys yn y ffigyrau
- Adroddodd 7.5% o'r gweithlu bod ganddynt gyfrifoldebau gofalu, oedd yn gynnydd o flynyddoedd blaenorol. Roedd y Cyngor yn awyddus i gefnogi staff gyda hyn.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd y Cyngor yn bwriadu cynnwys anneuaidd fel ffigwr mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Eglurodd Rheolwr y Grŵp, Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol fod hyn yn rhywbeth sy'n cael ei ychwanegu i'r system er mwyn gallu paratoi adroddiadau yn ei gylch, ond ei fod wedi cymryd hirach na'r disgwyl. Gobeithiodd y byddai hyn ar gael yn yr adroddiad nesaf ar gyfer y Pwyllgor.

Gofynnodd y Cadeirydd a oeddem yn gwybod sut roedd hyn yn cymharu â Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gyffredinol, o ran cyflogeion o gefndiroedd lleiafrifol ethnig. Roedd Rheolwr y Grŵp, Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol yn credu bod y ffigwr o gwmpas 1.9%, ond y byddai'n cael ei gadarnhau eto.

Dywedodd yr Arweinydd fod nifer y myfyrwyr a oedd yn siarad Cymraeg mewn ysgolion yn llawer uwch na gweithlu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. O ran cynllunio olyniaeth a mynd ati i wella'r Gymraeg ymhlith y gweithlu, efallai y byddai'n amser i fyfyrio ar hyn a gweld pa waith pellach a ellir ei wneud.

Eglurodd Rheolwr y Grŵp, Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol fod digwyddiad gyrfaoedd ar y gweill, a'n bod ni'n gweithio'n agos gyda'r tîm cyflogadwyedd ac ysgolion, felly, roedd yn ddigwyddiad pwysig i godi'r materion hyn ac ymwybyddiaeth o'r swyddi sydd ar gael yn y Cyngor. Dywedodd fod swydd ar gyfer prentis newydd yn cael ei chynllunio o fewn yr adran Adnoddau Dynol, a bwriad y swydd honno oedd gwella'r gefnogaeth ar gyfer cyfleodd presennol, a helpu i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer prentisiaid newydd, yn cynnwys prentisiaid newydd sy'n siarad Cymraeg.

PENDERFYNWYD: Dylai Pwyllgor y Cabinet Cydraddoldeb nodi'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad hwn ac Atodiad 1.

4. ASESIADAU O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB - ADOLYGIAD BLYNYDDOL 2021/2022

Cyflwynodd Rheolwr y Grŵp - Trawsnewid a Gwasanaethau Cwsmer adroddiad er mwyn rhoi diweddariad blynyddol i aelodau ar ofyniad y Cyngor i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AECau), trosolwg o ddull y cyngor o ymdrin ag AECau ac amlinelliad o AECau a gynhaliwyd ym meysydd gwasanaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr yn 2021/2022.

Esboniodd bod Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn offeryn i asesu a allai polisïau/gwasanaethau/swyddogaethau newydd (neu newidiadau i rai presennol), neu gael gwared ar wasanaethau, effeithio ar wahanol sectorau o gymdeithas mewn gwahanol ffyrdd. Dylid gwneud Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wrth wneud penderfyniadau strategol. Dywedodd bod Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn helpu'r Cyngor i wneud penderfyniadau gwell, deall sut y gall gwasanaethau fod yn fwy agored, neu'n well, ac ystyried y naw nodwedd warchodedig yn ogystal â'r effaith ar y Gymraeg.

Eglurodd Rheolwr y Grŵp - Trawsnewid a Gwasanaethau Cwsmer fod modiwl hyfforddi Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gael ar y wefan E-ddysgu i gyflogeion a'i fod yn

rhoi trosolwg o'r Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, eu rôl o ran gwella gwasanaethau a chanllaw i gynnal yr asesiadau. Ar ddiwedd y modiwl, mae gan staff gyfle i gwblhau AEC a chymharu hyn yn erbyn fersiwn sydd eisoes wedi'i chwblhau i asesu sut mae'r modiwl wedi cynorthwyo o ran gwybodaeth a dealltwriaeth. Tynnodd sylw at nifer y staff a oedd wedi cwblhau hyfforddiant yn y cyfnod rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2022, ac mae wedi'i nodi yn 4.2.2 yr adroddiad.

Cyfeiriodd Rheolwr y Grŵp - Trawsnewid a Gwasanaethau Cwsmer at yr Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd yn ystod 2021/22. Cwblhawyd pedwar Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb llawn gydag adroddiadau Cabinet i gyd-fynd â nhw, ac maent wedi'u cynnwys yn Atodiad un. Nodwyd bod 33 gwiriad ar Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'u cynnal yn ystod y cyfnod hwn a bod y rhain wedi'u rhestru yn Atodiad dau.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod hi'n braf gweld bod dros 250 o staff wedi gwneud hyfforddiant Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. O ran gwasanaethau'r rheng flaen, lle mae hyfforddiant Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn bwysicach fyth, beth oedd y cyngor yn ei wneud i hyrwyddo pwysigrwydd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r modiwlau hyfforddiant?

Eglurodd Rheolwr y Grŵp - Trawsnewid a Gwasanaethau Cwsmer fod y tîm yn gweithio'n agos gyda'r adran Adnoddau Dynol a'r adran Dysgu a Datblygu i hyrwyddo pwysigrwydd ymhlith staff, a'i fod bellach wedi'i gynnwys yn rhaglen gynefino'r rheolwr. Ychwanegodd fod swyddog cydraddoldeb o fewn y tîm, fydd yn edrych ymhellach ar adroddiadau'r Cabinet i wirio'r Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a chysylltu â'r meysydd gwasanaeth a oedd yn brin o brofiad neu gyflawnder yn y maes hwn.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Y byddai Pwyllgor y Cabinet Cydraddoldeb yn nodi'r cynnydd a wnaed yn y Cyngor yn ystod 2021/2022 wrth gwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, y cynnydd a wnaed gyda hyfforddiant, e-ddysgu a datblygu hyfforddiant wyneb yn wyneb, a gweithdai ar gyfer paratoi i roi'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol ar waith.

5. <u>GWEITHREDU'R DDYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL - BLWYDDYN YN DDIWEDDARACH</u>

Cyflwynodd Rheolwr y Grŵp - Trawsnewid a Gwasanaethau Cwsmer adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth i'r pwyllgor ynghylch y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol flwyddyn ers iddi gael ei rhoi ar waith 31 Mawrth 2021.
Dywedodd fod y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol wedi dod i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021, fel gofyniad statudol. Y bwriad oedd gwella'r broses o wneud penderfyniadau a helpu'r rheiny sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol, mynd i'r afael ag anghydraddoldeb sydd wrth wraidd gwneud penderfyniadau, ac adeiladu ar y gwaith da mae cyrff cyhoeddus eisoes yn ei wneud. Yn sgil cyflwyno'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus feddwl sut all eu penderfyniadau strategol, megis gosod targedau a datblygu gwasanaethau cyhoeddus, gwella anghydraddoldeb y canlyniadau i bobl sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

Pwysleisiodd Rheolwr y Grŵp - Trawsnewid a Gwasanaethau Cwsmer, er mwyn sicrhau bod y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn cael ei hystyried yn llawn fel rhan o brosesau gwneud penderfyniadau strategol a llywodraethol y Cyngor, mae Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr wedi mabwysiadu'r mentrau isod:

- Cynnwys y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol o fewn yr Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb llawn, corfforaethol a gwiriadau dechreuol, i sicrhau bod

Rheolwyr yn ystyried goblygiadau ar y bobl sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

- Paratoi canllawiau a hyfforddiant dysgu a datblygu corfforaethol ar gyfer staff ynghylch gweithredu'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol a'r asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Ychwanegodd fod cyfanswm o dri deg a thri gwiriad o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, a phedwar Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb llawn wedi'u cwblhau yn ystod blwyddyn ariannol 2021/2022 mewn cyfarwyddiaethau gwahanol. O'r tri deg a thri asesiad a gwblhawyd, dangosodd pedwar ohonynt y byddai'n cael effaith gadarnhaol ar y bobl sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol, a nodwyd na fyddai'r deg arall yn cael effaith o gwbl. Roedd rhagor o fanylion ynghylch hyn ar gael yn 4.3. yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD: Cafodd y wybodaeth hon ei derbyn a'i hystyried gan Bwyllgor y Cabinet Cydraddoldeb.

6. DIWEDDARIAD AR WAITH CYDRADDOLDEB O FEWN YSGOLION

Cyflwyno Rheolwr y Grŵp - Trawsnewid a Gwasanaethau Cwsmer adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth i Bwyllgor y Cabinet Cydraddoldeb ynghylch digwyddiadau hiliol, neu wahaniaethol mewn ysgolion, a gafodd eu monitro gan ddefnyddio'r Ffurflen Adrodd Digwyddiad Hiliol, ynghyd â mentrau i fynd i'r afael â hiliaeth mewn ysgolion.

Eglurodd fod Llywodraeth Cymru wedi cynnig sawl ffrwd wedi'u hariannu gan arian grant i ddelio â throseddau casineb yn ystod hydref 2019. Yn eu plith roedd prosiect i weithio mewn 100 ysgol benodol ledled Cymru. Ei fwriad oedd cyflwyno sgiliau meddwl yn feirniadol a chodi ymwybyddiaeth o bob agwedd ar droseddau casineb mewn ysgolion, gan ganolbwyntio ar ddisgyblion Cyfnod Allweddol 3.

Yn dilyn cyfres o gyfarfodydd rhwng CLlLC, Cydlynwyr Cydlyniad Cymunedol a darparwyr dewisol ar gyfer cyflwyno prosiectau ynghylch troseddau casineb, adnabuwyd nifer o ysgolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar sail data troseddau casineb. Roedd rhagor o fanylion ynghylch hyn ar gael yn 3.4 a 3.5. yn yr adroddiad.

Eglurodd Rheolwr y Grŵp - Trawsnewid a Gwasanaethau Cwsmer fod CLlLC wedi comisiynu Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth fel eu partner dewisol i gyflwyno'r prosiect i ysgolion penodol ledled Cymru yn ystod mis Ionawr, 2020. Roedd rhagor o fanylion ynghylch hyn ar gael yn 3.7 a 3.8. yn yr adroddiad.

Eglurodd Rheolwr y Grŵp - Trawsnewid a Gwasanaethau Cwsmer bod dau ddeg a pum digwyddiad hiliol wedi cael eu hadrodd gan ysgolion ledled y fwrdeistref sirol yn ystod y flwyddyn academaidd 2020-21. Rhestrwyd y rhain yn 4.1 yr adroddiad, gyda manylion y digwyddiadau hyn yn cael eu categoreiddio fel y canlynol:

- cam-drin geiriol neu sarhad (18)
- sylwadau hiliol yn ystod trafodaeth (4)
- postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol (2)
- gwrthod cydymffurfio ag eraill oherwydd crefydd, ethnigrwydd neu iaith (1)

Ceir rhagor o wybodaeth am y ffigyrau a'r camau a gymerwyd yn adran 4 yr adroddiad.

Gofynnodd yr Arweinydd a oeddem yn gallu gweld unrhyw dueddiadau dros y blynyddol yn ôl y ffigyrau a ddarparwyd.

Dywedodd Rheolwr y Grŵp - Trawsnewid a Gwasanaeth Cwsmer fod y data'n dangos tueddiadau, a'i fod yn hapus i goladu a rhannu'r data gyda'r Pwyllgor a'i rannu mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

Gofynnodd yr Arweinydd a oedd yr adborth ynghylch y gwaith roedd Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth wedi bod yn ei wneud yn dal i fod yn gadarnhaol. Roedd Rheolwr y Grŵp - Trawsnewid a Gwasanaeth Cwsmer yn hapus i ddarparu data mewn cyfarfodydd yn y dyfodol ynghylch yr adborth a ddarparwyd.

Gofynnodd yr Arweinydd a oedd y dull darparu'n canolbwyntio ar athrawon neu ddisgyblion, am iddo gyfeirio at y ddau yn yr adroddiad. Dywedodd Rheolwr y Grŵp Cymorth i Ysgolion fod y dull darparu'n berthnasol i athrawon a disgyblion. Roedd yr adborth a dderbyniwyd ynghylch hyn wedi bod yn gadarnhaol.

Dywedodd y Cadeirydd fod yr adroddiad yn nodi bod y gwaith yn canolbwyntio ar ddisgyblion Cyfnod Allweddol 3, fodd bynnag, roedd rhai o'r digwyddiadau a adroddwyd amdanynt wedi digwydd ymhlith disgyblion oed cynradd. Pa waith oedd yn cael ei wneud i sicrhau bod disgyblion oed cynradd hefyd yn cael hyfforddiant. Eglurodd Rheolwr y Grŵp Cymorth i Ysgolion nad oedd hi'n siŵr pa hyfforddiant ychwanegol oedd yn cael ei ddarparu i ddisgyblion ysgolion cynradd a oedd y tu hwnt i'w hyfforddiant i athrawon arferol, fodd bynnag, byddai'n darparu manylion pellach ynghylch hyn mewn cyfarfod yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD: Cafodd yr adrodd hwn ei dderbyn a'i ystyried gan Bwyllgor y Cabinet Cydraddoldeb.

## 7. ADRODDIAD DIWEDDARU AR WEITHREDU MESUR Y GYMRAEG (CYMRU) 2011 A SAFONAU'R GYMRAEG

Cyflwynodd Rheolwr y Grŵp - Trawsnewid a Gwasanaethau Cwsmer adroddiad yn diweddaru Pwyllgor y Cabinet Cydraddoldeb ar weithredu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg.

Eglurodd, ers i'r Cyngor dderbyn ei hysbysiad cydymffurfiaeth gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg yn 2015, mae cynnydd o ran gweithredu'r 171 safon a neilltuwyd wedi parhau. Darparwyd diweddariadau ynghylch cydymffurfiaeth ym mhob Cabinet y Pwyllgor Cydraddoldeb ers 28 Ebrill 2016.

Rhannodd Rheolwr y Grŵp - Trawsnewid a Gwasanaethau Cwsmer, fanylion am nifer cyfredol y cwynion a oedd wedi cael eu diweddaru'n rheolaidd ers yr adroddiad diwethaf. Roedd rhagor o fanylion ynghylch y niferoedd hyn yn adran 4 yr adroddiad.

Dywedodd fod cwyn heb ei hadfer yn bodoli mewn perthynas ag ymgynghoriad ysgol Mynydd Cynffig, a bod tystiolaeth wedi cael ei darparu i'r Comisiynydd a'n bod ni'n aros am ganlyniad y gŵyn honno. Roedd pob cwyn arall wedi cael eu hadfer.

PENDERFYNWYD: Cafodd yr adroddiad hwn, a'i atodiadau, eu derbyn a'u hadolygu gan Bwyllgor y Cabinet Cydraddoldeb.

## 8. ADRODDIAD BLYNYDDOL YNGHYLCH SAFONAU'R GYMRAEG 2021/2022

Cyflwynodd Rheolwr y Grŵp - Trawsnewid a Gwasanaethau Cwsmer adroddiad a oedd yn hysbysu Pwyllgor y Cabinet Cydraddoldeb o'r cynnwys a'r agwedd a ddefnyddiwyd yn seithfed Adroddiad Blynyddol Ynghylch Safonau'r Gymraeg 2021/2022 y Cyngor.

Eglurodd Rheolwr y Grŵp - Trawsnewid a Gwasanaethau Cwsmer fod Safonau'r Gymraeg wedi rhoi rhagor o hawliau cymelladwy, gwell i siaradwyr Cymraeg mewn perthynas â'r iaith. Derbyniodd y Cyngor ei hysbysiad cydymffurfiaeth olaf ar 30 Medi 2015, a oedd yn amlinellu'r 171 safon a oedd yn gofyn am gydymffurfiaeth. Mae safonau 158, 164 a 170 yn gofyn i'r Cyngor baratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol, yn Gymraeg, erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn. Nid oes angen caniatâd y Cyngor, na Chomisiynydd y Gymraeg, cyn ei gyhoeddi.

Dywedodd fod Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg y Cyngor 2021/2022 yn ymwneud â'r cyfnod o 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022, a gafodd ei gyhoeddi, yn ôl cyfarwyddyd, erbyn 30 Mehefin 2022. Atodwyd yr adroddiad fel Atodiad un (Cymraeg) ac Atodiad dau (Saesneg). Roedd rhagor o fanylion ynghylch hyn ar gael yn 4.3. yn yr adroddiad. Tynnodd Rheolwr y Grŵp - Trawsnewid a Gwasanaethau Cwsmer sylw at feysydd allweddol yr ymdriniwyd â nhw yn yr adroddiad.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi anfon e-bost at bob Aelod yn ddiweddar yn trafod gwaith a oedd wedi bod yn mynd rhagddo gyda Thîm y Gwasanaethau Democrataidd i sicrhau bod Aelodau'n cael yr un mynediad a'r un cyfleoedd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i ddysgu Cymraeg. Dywedodd ei fod yn dechrau cwrs yn fuan i ddatblygu ei alluoedd ymhellach o ran y Gymraeg, ac fe anogodd pob Aelod a oedd ag amser rhydd i fanteisio ar y cyfle i wneud yr un peth.

Gofynnodd yr Arweinydd a oedd modd edrych ar unrhyw gyllid a oedd ar gael ar gyfer canolfannau Cymraeg i oedolion, gan y byddai hyn yn cefnogi targedau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ymhellach, a sicrhau mynediad i'r cyhoedd ehangach. Eglurodd Rheolwr y Grŵp - Trawsnewid a Gwasanaethau Cwsmer y byddai'n bresennol ym moreau coffi Cymraeg Colegau Pen-y-bont ar Ogwr i godi proffil y Cyngor, a chael trafodaethau gyda'r bobl eraill sydd yno. Dywedodd fod y tîm yn bwriadu ffurfio cysylltiadau pellach gydag AWEN a Mentor Bro Ogwr, a chwmnïau eraill yn y fwrdeistref.

PENDERFYNWYD: Cafodd cynnwys yr adroddiad hwn, a'r Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg 2021/2022, ei dderbyn a'i nodi gan Bwyllgor y Cabinet Cydraddoldeb.

9. EITEMAU BRYS

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 10:56